# P-04-605 Achub Ffordd Goedwig Cwmcarn Rhag Cael ei Chau am Gyfnod Amhenodol neu'n Barhaol

## Manylion

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wyrdroi penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i gau Ffordd Goedwig Cwmcarn am gyfnod amhenodol o 2 Tachwedd 2014 ymlaen

### Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan y bydd Ffordd Goedwig Cwmcarn ar gau am gyfnod amhenodol ym mis Tachwedd a bod hyn yn angenrheidiol oherwydd haint y llarwydd Siapaneaidd yn y goedwig. Nid wyf wedi fy argyhoeddi, oherwydd bod anghysondebau yn null Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae digon o ffyrdd cynhaeaf y gellir eu defnyddio i hwyluso'r gwaith o gael gwared ar y coed. Gellir symud y pethau sydd angen eu symud ar y ffordd yn ystod y cyfnod pan mae'r ffordd ar gau yn flynyddol yn ystod y gaeaf; fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud na fydd y gwaith o symud y coed yn cael ei gwblhau tan 2018 ac, ar ôl hyn, mae'n bosibl na fydd y ffordd yn ailagor oherwydd materion cyllido. Dim ond ychydig iawn o amhariad i'w cyfleusterau y mae parciau coedwig eraill yn ei wynebu o ganlyniad i symud coed. Mae canolbwyntio ar ddefnyddwyr y ffordd yn annheg ac yn ddianghenraid pan fydd defnyddwyr eraill dim ond yn wynebu amhariad dros dro. Dylem achub y ffordd ar gyfer ei defnyddwyr, y mae llawer ohonynt yn hŷn, yn anabl ac yn dod o'n cymunedau lleiafrifoedd ethnig a mewnfudwyr. Mae hyn yn amddifadu'r bobl hynny sydd fwyaf difreintiedig o'u prif gyfleuster ar gyfer iechyd a lles.

**Prif ddeisebydd**: Robert Jeffrey Southall

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:**

**Nifer y llofnodion:** 2,392 llofnod a'r lein a 602 llofnod papur